

# Nodiadau i Diwtoriaid ac Aseswyr y Dyfarniad Hyfforddi

# Nodiadau i Diwtoriaid ac Aseswyr y Dyfarniad Hyfforddi

## Rhagarweiniad

Mae'r Nodiadau hyn i Diwtoriaid ac Aseswyr yn darparu arweiniad penodol i ddarparwyr, tiwtoriaid ac aseswyr ynghylch cynnal Dyfarniadau Hyfforddi Corff Dyfarnu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain. Rhaid cael caniatâd y Ganolfan Ddarparu i weithredu y tu allan i'r canllawiau hyn.

Caiff y Nodiadau hyn i Diwtoriaid ac Aseswyr eu hategu gan y dogfennau canlynol:

- Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain
- Pecyn Diwrnod Asesu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain
- Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain
- Rhaglen a Chynlluniau Gwersi Enghreifftiol Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain

## Cynnwys


1. Hyfforddiant Hyfforddi Craidd 2

2. Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol 7

3. Asesu 13

4. Gofynion Cyfleusterau ac Adnoddau 20

5. Polisïau Ategol 22

6. Enwau ac Iaith y Cytunwyd arnynt ar gyfer Dyfarniadau Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain 23

## 1. Hyfforddiant Hyfforddi Craidd

Mae'r Hyfforddiant Hyfforddi Craidd wedi'i gynllunio i gefnogi hyfforddwyr sy'n paratoi ar gyfer Cymhwyster Dyfarniad Hyfforddi. Maent hefyd yn addas ar gyfer hyfforddiant unigol i gefnogi dysgu a datblygu parhaus, a gellir eu hailadrodd.

Gellir cynnal yr Hyfforddiant Hyfforddi Craidd fel cwrs agored i bobl sy'n dilyn llwybrau gwahanol ddisgyblaethau neu i grŵp o hyfforddwyr disgyblaeth sengl (e.e. grŵp o Hyfforddwyr Slalom).  Gellir ei gynnal cefn wrth gefn â Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol, neu ar wahân iddo.

### Niferoedd Staffio ac Ymgeiswyr

Cymhareb Staffio: 1:4

Dylai'r holl gyrsiau Hyfforddiant Hyfforddi Craidd gael rhwng 4 ac 8 ymgeisydd.

Rhaid i gyfarwyddwr y cwrs fod yn Diwtor Hyfforddiant Craidd Dyfarniad Hyfforddi trwyddedig.

Ar gyfer cyrsiau sydd â rhwng 5 ac 8 ymgeisydd, rhaid i'r ail aelod o staff fod yn:

Diwtor Hyfforddiant Craidd Dyfarniad Hyfforddi trwyddedig, NEU;
Unigolyn sy'n ymgieisio[1] i fod yn Diwtor Hyfforddiant Craidd Dyfarniad Hyfforddi trwyddedig, NEU;
Diwtor Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol.

Dylid nodi mai cyfarwyddwr y cwrs sy'n gyfrifol am ddewis ei ail aelod o staff a'i roi i weithio'n briodol, a rhaid i'r cyfarwyddwr rhoi dulliau cymorth a monitro priodol ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar y rhaglen ddysgu yn cael eu darparu'n briodol.

### Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs

Cyn cynnal Hyfforddiant Hyfforddi Craidd, rhaid i gyfarwyddwr y cwrs wneud cais am Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs drwy ei Ganolfan Ddarparu. Ar ôl i hyn gael ei brosesu, byddant yn derbyn Rhif Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs. Dylai'r cyfarwyddwyr wirio'r cyfyngiadau amser â'u Canolfannau Darparu.

[1]Unigolion sy'n ymgeisio i fod yn Diwtoriaid = unigolion sydd wedi gwneud cais ac wedi cwblhau'r sesiwn ymgyfarwyddo

## Hyd y Cwrs

Gellir cyflwyno'r rhaglen Hyfforddiant Hyfforddwyr Craidd ar-lein neu'n ymarferol. Cyflwynir y cwrs ar-lein dros gyfres o 16 sesiwn ar-lein gyda chyfanswm o 15 awr o amser dosbarthu. Cyflwynir y cwrs ymarferol dros 2 ddiwrnod yn olynol. Mae pob diwrnod o'r cwrs ymarferol yn cynnwys o leiaf 7.5 awr 'amser cyswllt addysgu / dysgu.

## Recriwtio a Gwybodaeth Cyn y Cwrs

Mae cyfarwyddwr y cwrs yn chwarae rhan allweddol yn sicrhau y neilltuir lle ar gyrsiau i'r ymgeiswyr cywir. Rhaid darparu gwybodaeth a chyngor priodol cyn y cwrs i'r ymgeiswyr. Dylai hyn gynnwys:

- gwybodaeth am y cymhwyster/cwrs
- gwybodaeth am gofrestru a chyfeirio at e-ddysgu Dyfarniad Hyfforddi
- gwybodaeth am logisteg; e.e y lleoliad, cyfarwyddiadau, amseru, cyfarpar, bwyd, ac ati, ar gyfer cyrsiau ar-lein gallai hyn fod yn fanylion am y system ddigidol sy'n cael ei defnyddio;
- cyngor ar wybodaeth/sgiliau blaenorol y disgwylir ohonynt a'r rhagofynion
- argymhelliad i gwblhau e-ddysgu Hyfforddwr Chwaraeon Padlo cyn mynychu'r Hyfforddiant Craidd i Hyfforddwyr
- gofyn am wybodaeth am unrhyw ofynion dysgu penodol
- cyngor ar yr hyn sydd angen iddynt ddod gyda nhw i'r cwrs a'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar y safle
- gwahodd ymgeiswyr i gysylltu os oes ganddynt unrhyw gwestiynau
- amlinelliad o'r rhaglen
- manylion ynghylch polisi canslo'r cwrs

Mae angen i gyfarwyddwr y cwrs hefyd gasglu gwybodaeth gan yr ymgeiswyr cyn y cwrs i'w galluogi i deilwra'r cwrs er mwyn bodloni anghenion unigol. Bydd hyn yn cynnwys clustnodi meysydd penodol o ddiddordeb ac unrhyw ofynion dysgu arbennig.

Paratoi: Mae'r Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddi yn rhoi gwybodaeth am y gwaith paratoi sydd angen i'r ymgeiswyr ei wneud cyn mynychu'r cwrs Hyfforddiant

Hyfforddi Craidd. Cynghorir darparwyr i dynnu sylw'r ymgeiswyr at y wybodaeth benodol hon cyn y cwrs. Dylai darparwyr fod yn barod i roi arweiniad unigol i ymgeiswyr hefyd ynghylch pa mor addas yw'r Hyfforddiant Hyfforddi Craidd o ran eu hanghenion a'u sail sgiliau a gwybodaeth bresennol. Dylai'r E-ddysgu Hyfforddwr Chwaraeon Padlo gael ei argymell yn gryf i BOB ymgeisydd cyn mynychu'r Hyfforddiant Hyfforddi Craidd.

**Rhagofynion Ffurfiol**

Mae'r Hyfforddiant Hyfforddi Craidd yn agored i aelodau llawn Cymdeithas Gwlad Gartref yn unig.

Mae'n gyfrifoldeb ar yr ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn dal y rhagofynion hyn. Bydd angen i ddarparwyr a thiwtoriaid roi gwiriadau priodol ar waith.

Nid oes cyfyngiad oedran i'r Hyfforddiant Hyfforddi Craidd. Os bydd darparwyr yn dewis caniatáu hyfforddwr dan 18 oed i fynychu'r cwrs, rhaid gweithredu mesurau diogelu priodol a rhoi ystyriaeth briodol i'r cyfrifoldebau cyfreithiol pellach.

**Cofrestru**

Rhaid i hyfforddwyr gofrestru ar gyfer eu siwrne tuag at yr Asesiad Dyfarniad Hyfforddi. Mae hyn yn benodol i'r dyfarniad a gellir ei gwblhau ar unrhyw adeg cyn yr asesiad. Drwy gofrestru, gellir cyrchu E-ddysgu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain, ymysg manteision eraill. Gallwch gael rhagor o fanylion o'r Cymdeithasau Gwlad Gartref.

Dylai darparwyr a thiwtoriaid hyrwyddo gwerth pecyn E-ddysgu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain gan ei fod wedi'i gynllunio i gefnogi'r cynnwys yr ymdrinnir ag e ar yr Hyfforddiant Hyfforddi Craidd ac mae ei angen ar y rheiny sy'n dymuno cwblhau asesiad.

**Cynnal y Cyrsiau Hyfforddi**

Rhaid i gyrsiau Hyfforddiant Hyfforddi Craidd sy'n cael eu cynnal yn 2018 ddilyn rhaglen a chynlluniau gwers Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.

Er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cael ei anelu ar y lefel gywir, rhaid i diwtoriaid fod yn gyfarwydd â'r e-ddysgu a'r Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddi hefyd. Bydd y ddau hyn yn helpu'r tiwtor i integreiddio a chyflwyno cynnwys priodol wrth gynnal eu rhaglen.

Myfyrwyr Ffug (Hyfforddiant Hyfforddwyr Craidd Ymarferol yn Unig)Yn ystod yr Hyfforddiant Hyfforddi Craidd, rhoddir cyfle i ymgeiswyr ymarfer eu sgiliau hyfforddi. Gall hyn gael ei hwyluso ar ffurf hyfforddi cyfoedion drwy drefnu myfyrwyr ffug priodol. Ym mhob achos, rhaid bod o leiaf dau fyfyriwr i'r ymgeisydd eu hyfforddi. Ar gyrsiau â llai na thri hyfforddwr rhwyfo, bydd angen defnyddio myfyrwyr ffug.

**Hyfforddwyr nad ydynt yn Rhwyfo (Hyfforddiant Hyfforddwyr Craidd Ymarferol yn Unig)**

Gall hyfforddwyr sy'n dilyn y disgyblaethau Dull Rhydd, Polo, Rasio, Slalom neu Rasio Dŵr Gwyllt ystyried cyflawni eu rôl hyfforddi o'r glannau. Yn ystod yr Hyfforddiant Hyfforddi Craidd, gall yr hyfforddwyr hyn ddymuno treulio amser ar y dŵr. Mae hyn yn gwbl briodol, gan ei fod yn rhoi safbwynt gwahanol iddynt. Fodd bynnag, ni ddylai gael ei or-ddefnyddio a dylid ei gydbwyso ag amser oddi ar y glannau. Ar gyrsiau â llai na thri hyfforddwr rhwyfo, bydd angen defnyddio myfyrwyr ffug (gweler uchod).

**Lleoliad ac Adnoddau (Hyfforddiant Hyfforddwyr Craidd Ymarferol yn Unig)**

Mae'r Hyfforddiant Hyfforddi Craidd yn gofyn am fynediad hawdd/cyflym i leoliad sydd â Dŵr Cysgodol neu Ddŵr Cysgodol Iawn. 15 munud yw'r cyfnod hiraf yr ystyrir yn dderbyniol o ran teithio mewn cerbyd o'r ystafell ddosbarth i'r lleoliad dŵr. Mae'n fanteisiol defnyddio lleoliadau lle nad oes angen llwytho a dadlwytho cychod ar gyfer pob sesiwn.

Rhaid cael ystafell ddosbarth â chadeiriau/byrddau a defnydd o adnoddau clyweledol.

Bydd angen i hyfforddwyr rhwyfo ddefnyddio cwch/rhwyfau/cyfarpar i gymryd rhan yn gyfforddus ac yn ddiogel yn y sesiynau ymarferol yn y dŵr.

Rhaid cynnig ystod o adnoddau dysgu priodol i gynorthwyo ymgeiswyr.  Dylai'r adnoddau dysgu hyn fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys manylebau hyfforddi chwaraeon penodol, cyfeirlyfrau, llawlyfrau, llyfrau gwaith, gwefannau technegol a modiwlau e-ddysgu.

**Canslo Cyrsiau**

Rhaid rhybuddio ymgeiswyr y gallai cyrsiau ymarferol gael eu canslo os nad yw'r amodau'n addas; rhaid cyfathrebu'r polisi canslo cyrsiau yn glir.

Fe'i hystyrir yn ddigwyddiad anarferol petai gwrs Hyfforddiant Hyfforddi Craidd ymarferol yn cael ei ganslo yn sgil amodau tywydd/amgylcheddol amhriodol. Dylai tiwtoriaid gynllunio cyrsiau mewn lleoliadau, ac ar adegau'r flwyddyn, lle mae'r amodau priodol yn fwyaf tebygol. Dylai tiwtoriaid wneud eu gorau glas i ddarparu profiad dysgu o ansawdd da â'r adnoddau sydd ar gael. Dim ond pan fydd y dewisiadau wedi'u cyfyngu gormod yn sgil amodau eithriadol y dylid canslo cwrs.

**Gwaith Papur Diwedd y Cwrs**

Yn syth ar ôl yr Hyfforddiant Hyfforddi Craidd, rhaid i gyfarwyddwr y cwrs ddychwelyd **Amserlen y Cwrs** wedi'i chwblhau a'r ffioedd gofynnol i'r **Ganolfan Ddarparu**. Nodir yr amserlenni lleiaf ar Amserlen y Cwrs.

Ar ôl i'r gwaith papur hwn gael ei ddychwelyd i'r Ganolfan Ddarparu, bydd yn cael ei wirio a bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystiolaeth o bresenoldeb.

**Adborth Diwedd y Cwrs**

Rhaid i ddarparwyr a thiwtoriaid gasglu, a gweithredu ar, adborth gan ymgeiswyr ynghylch ansawdd yr hyfforddiant a'r asesiad. Dylid cadw tystiolaeth o hyn at ddibenion sicrhau ansawdd.

**Adborth i'r Ganolfan Ddarparu**

Anogir darparwyr a thiwtoriaid i ddarparu adborth ysgrifenedig i'w Canolfan Ddarparu ynghylch unrhyw faterion a allai helpu o ran datblygiad cyffredinol y dyfarniadau. Gall hyn gael ei gynnwys yng ngwaith papur diwedd y cwrs, neu ei anfon ar wahân.

## 2. Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol

Mae'r Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol wedi'i gynllunio i gefnogi hyfforddwyr sy'n paratoi ar gyfer Cymhwyster Dyfarniad Hyfforddi. Mae hefyd yn addas ar gyfer hyfforddiant unigol i gefnogi dysgu a datblygu parhaus, a gellir eu hailadrodd.

Gellir cynnal yr Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol yn syth ar ôl Hyfforddiant Hyfforddi Craidd neu ar wahân iddo. Ni fydd Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol yn cael ei gwblhau yn syth ar ôl Asesiad gan amlaf.

### Niferoedd Staffio ac Ymgeiswyr

Cymhareb Staffio: 1:4

Dylai'r holl gyrsiau Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol gael rhwng 2 ac 8 ymgeisydd.

Rhaid i gyfarwyddwr y cwrs fod yn Diwtor Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain trwyddedig yn y ddisgyblaeth berthnasol.

Ar gyfer cyrsiau sydd â rhwng 5 ac 8 ymgeisydd, rhaid i'r ail aelod o staff fod yn Unigolyn sy'n Ymgieisio[2] i fod yn Diwtor Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol Dyfarniad Hyfforddi trwyddedig yn y ddisgyblaeth berthnasol.

Dylid nodi mai cyfarwyddwr y cwrs sy'n gyfrifol am ddewis ei ail aelod o staff a'i roi i weithio'n briodol, a rhaid i'r cyfarwyddwr rhoi dulliau cymorth a monitro priodol ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar y rhaglen ddysgu yn cael eu darparu'n briodol.

Mewn amgylchiadau arbennig, gall Rheolwyr Canolfannau Darparu wneud trefniadau i diwtoriaid amgen ddarparu'r cyrsiau Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol ar sail bob achos a thrwy addysgu tîm. Gweler Gofynion Tiwtoriaid ac Aseswyr Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain am ragor o fanylion.

[2]Unigolion sy'n ymgeisio i fod yn Diwtoriaid = unigolion sydd wedi gwneud cais ac wedi cwblhau'r sesiwn ymgyfarwyddo

**Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs**

Cyn cynnal Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol, rhaid i gyfarwyddwr y cwrs wneud cais am Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs drwy ei Ganolfan Ddarparu. Ar ôl i hyn gael ei brosesu, byddant yn derbyn Rhif Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs. Dylai'r cyfarwyddwyr wirio'r cyfyngiadau amser â'u Canolfannau Darparu.

**Hyd y Cwrs**

Caiff y rhaglen Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol ei darparu dros ddau ddiwrnod yn olynol; ac eithrio Hyfforddiant Hyfforddwr Slalom, sy'n cael ei ddarparu dros dri diwrnod yn olynol. Rhaid i bob 'diwrnod' gynnwys o leiaf 7.5 awr o addysgu/dysgu yng nghwmni hyfforddwr.

**Recriwtio a Gwybodaeth Cyn y Cwrs**

Mae cyfarwyddwr y cwrs yn chwarae rhan allweddol yn sicrhau y neilltuir lle ar gyrsiau i'r ymgeiswyr cywir. Rhaid darparu gwybodaeth a chyngor priodol cyn y cwrs i'r ymgeiswyr. Dylai hyn gynnwys:

- gwybodaeth am y cymhwyster/cwrs ac amlinelliad o'r rhaglen
- gwybodaeth am gofrestru a chyfeirio at e-ddysgu Dyfarniad Hyfforddi
- gwybodaeth am logisteg; e.e y lleoliad, cyfarwyddiadau, amseru, cyfarpar, bwyd, ac ati
- cyngor ar y wybodaeth y disgwylir i'r ymgeiswyr ei gwybod cyn y cwrs a'r rhagofynion
- cyngor ar y sgiliau personol/gwybodaeth y disgwylir ohonynt
- gofyn am wybodaeth am unrhyw ofynion dysgu penodol
- cyngor ar yr hyn sydd angen iddynt ddod gyda nhw i'r cwrs a'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar y safle
- gwahodd ymgeiswyr i gysylltu os oes ganddynt unrhyw gwestiynau
- manylion ynghylch polisi canslo'r cwrs

Mae angen i gyfarwyddwr y cwrs hefyd gasglu gwybodaeth gan yr ymgeiswyr cyn y cwrs i'w galluogi i deilwra'r cwrs er mwyn bodloni anghenion unigol. Bydd hyn yn

cynnwys clustnodi meysydd penodol o ddiddordeb ac unrhyw ofynion dysgu arbennig.

Mae’r Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddi yn rhoi gwybodaeth am y cymhwyster a gwybodaeth am y rhagofynion a’r wybodaeth flaenorol y disgwylir ohonynt. Cynghorir darparwyr i dynnu sylw’r ymgeiswyr at y wybodaeth benodol hon cyn y cwrs. Dylai darparwyr a thiwtoriaid fod yn barod i roi arweiniad unigol i ymgeiswyr hefyd ynghylch pa mor addas yw’r Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol o ran eu hanghenion a’u sail sgiliau a gwybodaeth bresennol.

**Rhagofynion Ffurfiol**

Mae’r Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol yn agored i hyfforddwyr â;

- Aelodaeth lawn o Gymdeithas Gwlad Gartref
- Dyfarniad Arwain perthnasol ar gyfer rhai disgyblaethau (fel y rhestrir yn y Canllaw Cwrs)
- Hyfforddiant Hyfforddi Craidd (neu gyfwerth, fel y manylir arno yn y Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddi)

Mae’n gyfrifoldeb ar yr ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn dal y rhagofynion hyn. Bydd angen i ddarparwyr a thiwtoriaid roi gwiriadau priodol ar waith.

Mae’r cwrs Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol wedi cael ei gynllunio i adeiladu ar y wybodaeth a’r sgiliau y mae’r rhagofynion yn ymdrin â nhw. Nid yw er lles gorau’r ymgeisydd fynychu Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol heb y rhagofynion a nodwyd; gallai gwneud hynny beryglu diogelwch ac ansawdd y dysgu i bawb sy’n mynychu’r cwrs. Mae dyletswydd ar diwtoriaid tuag at yr ymgeisydd yn ogystal â’r Ganolfan Ddarparu i sicrhau y cydymffurfir â hyn.

Nid oes cyfyngiad oedran i’r Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol (oni bai yr awgrymir hyn yn rhagofynion y Dyfarniad Arwain). Os bydd darparwyr yn dewis caniatáu hyfforddwr dan 18 oed i fynychu’r cwrs, rhaid gweithredu mesurau diogelu priodol a rhoi ystyriaeth briodol i’r cyfrifoldebau cyfreithiol pellach.

**Cofrestru**

Rhaid i hyfforddwyr gofrestru ar gyfer eu siwrne tuag at yr Asesiad Dyfarniad Hyfforddi. Mae hyn yn benodol i'r dyfarniad a gellir ei gwblhau ar unrhyw adeg cyn yr asesiad. Drwy gofrestru, gellir cyrchu E-ddysgu Dyfarniad Hyfforddi, ymysg manteision eraill. Gallwch gael rhagor o fanylion gan y Cymdeithasau Glwad Gartref.

Dylai darparwyr a thiwtoriaid hyrwyddo gwerth pecyn E-ddysgu Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain gan ei fod wedi'i gynllunio i gefnogi'r cynnwys yr ymdrinnir ag e ar yr Hyfforddiant Hyfforddi Craidd ac mae ei angen ar y rheiny sy'n dymuno cwblhau asesiad.

**Cynnal y Cyrsiau Hyfforddi**

Rhaid i gyrsiau Hyfforddiant sy'n cael eu cynnal yn 2018 ddilyn rhaglen a chynlluniau gwers Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.

Er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cael ei anelu ar y lefel gywir, rhaid i diwtoriaid fod yn gyfarwydd â'r e-ddysgu a'r Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddi hefyd. Bydd y ddau hyn yn helpu'r tiwtor i integreiddio a chyflwyno cynnwys priodol wrth gynnal eu rhaglen.

**Myfyrwyr Ffug**

Yn ystod yr Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol, rhoddir cyfle i'r ymgeiswyr ymarfer eu sgiliau hyfforddi. Gall hyn gael ei hwyluso ar ffurf hyfforddi cyfoedion drwy drefnu myfyrwyr ffug priodol. Ym mhob achos, rhaid bod o leiaf dau fyfyriwr i'r ymgeisydd eu hyfforddi. Ar gyrsiau â llai na thri hyfforddwr rhwyfo, bydd angen defnyddio myfyrwyr ffug.

**Hyfforddwyr nad ydynt yn Rhwyfo**

Gall hyfforddwyr sy'n dilyn y disgyblaethau Dull Rhydd, Polo, Rasio, Slalom neu Rasio Dŵr Gwyllt ystyried cyflawni eu rôl hyfforddi o'r glannau. Yn ystod yr hyfforddiant, gall yr hyfforddwyr hyn ddymuno treulio amser ar y dŵr. Mae hyn yn gwbl briodol, gan ei fod yn rhoi safbwynt gwahanol iddynt. Fodd bynnag, ni ddylai

gael ei or-ddefnyddio a dylid ei gydbwyso ag amser oddi ar y glannau. Ar gyrsiau â llai na thri hyfforddwr rhwyfo, bydd angen defnyddio myfyrwyr ffug (gweler uchod).

### Lleoliad ac Adnoddau

Dylai Cyrsiau Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol gael eu cynnal mewn lleoliadau sy’n caniatáu mynediad i ystod o wahanol amodau, lleoliadau neu amgylcheddau o fewn y diffiniadau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â’r Dyfarniad penodol. Mae Atodiad 2 i’r Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddi yn nodi terfynau uwch yr amgylchedd gweithredu; maent yn cael eu diffinio yng Nghylch Gorchwyl Corff Dyfarnu Canŵio Prydain. Mae cyrsiau sy’n defnyddio mwy nag un lleoliad ymarferol yn cynnig gwell cyfleoedd dysgu i’r ymgeisydd; dylid hwyluso hyn lle bo’n bosibl.

Gweler arweiniad ar ‘Hyfforddi mewn Amgylchedd Dynamig’ ar dudalen 14. Mae hyn yn berthnasol i diwtoriaid sy’n cynnal yr Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol ac i’r hyfforddwyr ar y cwrs.

Mae angen safle dan do am tua 60-90 munud ar ddechrau a diwedd bob dydd er mwyn cynnal y rhannau hyn o’r rhaglen ddysgu.

Bydd angen i hyfforddwyr gael mynediad i gyfarpar i’w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau hyfforddi yn unol â’r hyn sy’n cael eu diffinio gan y dyfarniad ac amgylchedd y dyfarniad. Nodwch fod yr Hyfforddiant Dŵr Cysgodol yn agored i hyfforddwyr sy’n dilyn yr asesiad canŵ a/neu gaiac (Dŵr Cysgodol).

Mae angen mynediad am o leiaf un diwrnod i safle a wnaed gan ddyn ac un diwrnod ar safle slalom afon naturiol ar gyfer yr Hyfforddiant Hyfforddi Slalom. Yn ddelfrydol, y diwrnod cyntaf a’r trydydd diwrnod ar y safle a wnaed gan ddyn, yr ail ddiwrnod ar safle ag afon naturiol.

Rhaid cynnig ystod o adnoddau dysgu priodol i gynorthwyo ymgeiswyr.  Dylai’r adnoddau dysgu hyn fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys manylebau hyfforddi chwaraeon penodol, cyfeirlyfrau, llawlyfrau, llyfrau gwaith, gwefannau technegol a modiwlau e-ddysgu.

## Canslo Cyrsiau

Rhaid rhybuddio ymgeiswyr y gallai cyrsiau gael eu canslo os nad yw'r amodau'n addas; rhaid cyfathrebu'r polisi canslo cyrsiau yn glir.

Fe'i hystyrir yn ddigwyddiad anarferol petai gyrsiau Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol yn cael eu canslo yn sgil amodau tywydd/amgylcheddol amhriodol. Dylai tiwtoriaid gynllunio cyrsiau mewn lleoliadau, ac ar adegau'r flwyddyn, lle mae'r amodau priodol yn fwyaf tebygol. Dylai tiwtoriaid wneud eu gorau glas i ddarparu profiad dysgu o ansawdd da â'r adnoddau sydd ar gael. Dim ond pan dydd yr opsiynau wedi'u cyfyngu gormod yn sgil amodau eithriadol (yn uwch neu'n is na'r gofynion) y dylid canslo cyrsiau hyfforddi.

## Gwaith Papur Diwedd y Cwrs

Yn syth ar ôl yr Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol, rhaid i gyfarwyddwr y cwrs ddychwelyd **Amserlen y Cwrs** wedi'i chwblhau a'r ffioedd gofynnol i'r **Ganolfan Ddarparu**. Nodir yr amserlenni lleiaf ar Amserlen y Cwrs. Ar ôl i'r gwaith papur hwn gael ei ddychwelyd i'r Ganolfan Ddarparu, bydd yn cael ei wirio a bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystiolaeth o bresenoldeb.

## Adborth Diwedd y Cwrs

Rhaid i ddarparwyr a thiwtoriaid gasglu, a gweithredu ar, adborth gan ymgeiswyr ynghylch ansawdd yr hyfforddiant a'r asesiad. Dylid cadw tystiolaeth o hyn at ddibenion sicrhau ansawdd.

## Adborth i'r Ganolfan Ddarparu

Anogir darparwyr a thiwtoriaid i ddarparu adborth ysgrifenedig i'w Canolfan Ddarparu ynghylch unrhyw faterion a allai helpu o ran datblygiad cyffredinol y dyfarniadau. Gall hyn gael ei gynnwys yng ngwaith papur diwedd y cwrs, neu ei anfon ar wahân.

## Modiwlau Canolradd/Sylfaenol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain

Mae modiwlau Canolradd a Sylfaenol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain wedi'u dylunio i gefnogi ac ehangu gwybodaeth hyfforddwyr, meysydd penodol yn arbennig. Maent

yn ddewisol a gellir eu cyrchu ar unrhyw adeg yn natblygiad yr hyfforddwr. Dylid annog pob hyfforddwr i adolygu'r modiwlau sydd ar gynnig ac i dargedu'r rhai a fydd yn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ym meysydd sy'n berthnasol i'w rôl/rolau hyfforddi penodol. Efallai bydd darparwyr yn dymuno cynnal y rhain fel rhan o'u pecyn hyfforddi hyfforddwyr ehangach, a/neu ar y diwrnodau cyn neu ar ôl yr Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol.

## 3. Asesu

### Rhagarweiniad

Mae pob cwrs asesu yn benodol i ddisgyblaeth, oni bai am y dewisiadau asesiad Dŵr Cysgodol. Gall yr asesiadau Dŵr Cysgodol fod yn werthfawr i hyfforddwyr sy'n dilyn unrhyw rai o'r dewisiadau canlynol:

Asesiad Hyfforddi Canŵ (Dŵr Cysgodol)
Asesiad Hyfforddi Caiac (Dŵr Cysgodol)
Asesiad Hyfforddi Canŵ a Chaiac (Dŵr Cysgodol)

Er mwyn meddu ar y Dyfarniad Hyfforddi, rhaid i ymgeiswyr cwblhau nifer o dasgau asesu'n llwyddiannus. Cânt eu hegluro yn y Pecyn Diwrnod Asesu a manylir arnynt ymhellach yn y Canllawiau Asesu cysylltiedig.

Dylai tiwtoriaid y cyrsiau hyfforddi fod wedi rhoi arweiniad i ymgeiswyr ynghylch y broses asesu, gan gynnwys cyngor ar gwblhau'r Dasg Trafod yr Asesiad, y tasgau asesu terfynol, y gwahanol fathau o asesiadau, y rhaglen asesu a'r meini prawf asesu.

### Cyfrifoldebau'r Aseswr

Mae'r holl aseswyr yn gyfrifol am:

- reoli'r broses asesu, y dystiolaeth ymarferol ac ysgrifenedig, o gynllunio'r asesiad i wneud a chofnodi penderfyniadau asesu

- asesu tystiolaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysedd yr ymgeiswyr yn ôl y safonau a nodwyd ym Manyleb yr Uned a barnu perfformiad yr ymgeiswyr yn eu hasesiadau yn ddibynadwy
- sicrhau dilysrwydd a digonolrwydd y dystiolaeth asesu y mae'r ymgeiswyr yn ei chyflwyno
- egluro unrhyw wendidau yn y dystiolaeth asesu a gyflwynir ac egluro i'r ymgeisydd sut y gellir eu datrys
- bod mor anamlwg ag sy'n ymarferol posibl yn ystod yr asesiad
- rhoi a chofnodi adborth arfarnol, ffurfiannol a chyfansymiol cyn gynted â phosibl
- cadarnhau llwyddiant i'r ymgeisydd cyn gynted â'i fod wedi dangos cymhwysedd yn ôl y deilliannau penodol
- cytuno ar gamau pellach i'w cymryd â'r ymgeisydd yn ôl yr angen
- cynnal asesiad mewn modd sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion cyfleoedd cyfartal a nodwyd gan Gorff Dyfarnu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain
- cynnal cofnodion asesiad cywir y gellir eu dilysu ar gyfer pob ymgeisydd
- cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol

Rhaid i aseswyr ddarparu arweiniad clir i ymgeiswyr ynghylch y broses asesu a'r broses o gwblhau'r tasgau amrywiol, gan gynnwys:

- yr hyn y mae angen i'r ymgeiswyr ei wneud
- y rhaglen asesu
- y meini prawf asesu perthnasol
- y dulliau asesu
- pryd fydd yr ymgeiswyr yn cael adborth

Rhaid hefyd cytuno ar y manylion unigol. Gall hyn gynnwys manylion mewn perthynas â'r cwch, y cyfranogwyr, lleoliadau, amseru, ac ati.

**Y Prif Bethau y Disgwylir o'r Aseswyr**

Dylai'r aseswyr feddu ar y cymwysterau priodol a bod yn fedrus yn alwedigaethol. Rhaid bodloni'r gofynion sylfaenol canlynol:

- dal y rôl aseswr berthnasol o fewn eu Canolfan Ddarparu

- gallu rhoi tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth, a thystiolaeth o fod wedi rhoi ar waith yr holl feysydd yn y maes llafur, a hynny ar y lefel gywir
- gallu dangos cymhwysedd technegol
- gallu dangos cymhwysedd wrth asesu holl feysydd y maes llafur
- bod yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r gofynion mewn perthynas â chynnal asesiadau, cofnodi penderfyniadau asesu a chynnal cofnodion asesu ymgeiswyr
- gallu defnyddio iaith blaen nad yw'n cynnwys bias ac sy'n briodol i'n cymwysterau chwaraeon padlo
- ymrwymo i gyfleoedd cyfartal wrth asesu ac yn meddu ar y gallu i drosi'r ymrwymiad hwn yn arfer

Rhaid i aseswyr sicrhau bod y gwaith papur angenrheidiol yn cael ei gwblhau'n gywir, yn gyfredol, yn cael ei storio'n ddiogel, ac ar gael i'w wirio yn fewnol neu'n allanol tra bod ymgeiswyr ar y cyrsiau.

**Niferoedd Staffio ac Ymgeiswyr**

Cymhareb Staffio: 1:2 (o leiaf 1 ymgeisydd, nid yn fwy na 2 ymgeisydd).

Rhaid i'r aseswr fod yn *Aseswr Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* trwyddedig yn y ddisgyblaeth berthnasol.

Mewn amgylchiadau arbennig, gall Rheolwyr Canolfannau Darparu wneud trefniadau i diwtoriaid amgen asesu'r ymgeiswyr ar sail bob achos a thrwy addysgu tîm er mwyn sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu cynnal. Gweler Gofynion Tiwtoriaid ac Aseswyr Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain am ragor o fanylion.

**Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs**

Cyn cynnal Asesiad Dyfarniad Hyfforddi, rhaid i'r cyfarwyddwr wneud cais am Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs drwy ei Ganolfan Ddarparu. Ar ôl i hyn gael ei brosesu, byddant yn derbyn Rhif Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs. Dylai'r cyfarwyddwyr wirio'r cyfyngiadau amser â'u Canolfannau Darparu.

### Hyd y Cwrs a'r Rhaglen Asesu

Gellir trefnu'r cyrsiau asesu drwy'r Canolfannau Darparu, Cymdeithasau Gwlad Gartref, Aseswyr Dyfarniad Hyfforddi trwyddedig, neu leoliadau cynnal. Gall ymgeiswyr hefyd drefnu asesiad unigol yn uniongyrchol ag aseswr trwyddedig.

Mae cyfrifoldeb ar yr aseswr i drefnu rhaglen briodol sy'n caniatáu digon o amser i gwblhau'r holl agweddau ar yr asesiad. Efallai y gofynnir i'r aseswyr ddarparu tystiolaeth o'u rhaglen waith, lleoliadau, ac ati er mwyn cadarnhau eu bod yn briodol.

Rhagwelir y gellir cwblhau 1:2 asesiad mewn diwrnod. Bydd logisteg y Disgyblaethau Penodol yn effeithio ar y cyfnod sydd ei angen.

### Canllawiau ynghylch Gweithio gyda Pherthnasau Agos neu Weithwyr

Ni chaiff aseswyr asesu teulu agos.

Dylai aseswyr osgoi asesu ffrindiau, cydweithwyr neu weithwyr - os na ellir osgoi hyn, rhaid ceisio caniatâd gan Reolwr y Ganolfan Ddarparu yn gyntaf. Rhaid bod yn fwy gwyliadwrus wrth sicrhau bod dyfarnu tystiolaeth ymgeiswyr yn cael ei wneud yn ddibynadwy, yn deg ac yn gywir. Ymddiriedir yn aseswyr i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n deg ac yn ddiduedd, gan osgoi gwrthdaro o ran buddiannau cymaint â phosibl.

### Recriwtio a Gwybodaeth Cyn y Cwrs

Mae'r aseswr yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau bod yr ymgeiswyr cywir yn cofrestru ar y cwrs a'u bod yn barod ar gyfer yr asesiad. Rhaid darparu gwybodaeth a chyngor priodol cyn y cwrs i'r ymgeiswyr cyn y tasgau asesu terfynol. Dylai hyn gynnwys:

- gwybodaeth am y cymhwyster/cwrs
- gwybodaeth am gofrestru a chymeradwyaeth y Gymdeithas Gwlad Gartref ar gyfer y broses asesu
- gwybodaeth am logisteg; e.e y lleoliad, cyfarwyddiadau, amseru, cyfarpar, bwyd, ac ati

- cyngor ar y wybodaeth y disgwylir i'r ymgeiswyr ei gwybod cyn y cwrs a'r rhagofynion
- gofyn am wybodaeth am unrhyw ofynion dysgu penodol
- cyngor ar yr hyn sydd angen iddynt ddod gyda nhw i'r cwrs a'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar y safle
- cyfle i ymgeiswyr gyfathrebu unrhyw anghenion disgyblaeth benodol er mwyn i'r asesiadau hyfforddi ymarferol ddefnyddio cwch sy'n berthnasol i'w hamgylchedd hyfforddi arferol (gan gynnal anghenion yr asesiad ar yr un pryd)
- gwahodd ymgeiswyr i gysylltu os oes ganddynt unrhyw gwestiynau
- amlinelliad o'r rhaglen a chyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth am y tasgau asesu
- manylion ynghylch polisi canslo'r cwrs

**Rhagofynion**

Manylir ar y rhagofynion ffurfiol yng Nghanllaw Cwrs y Dyfarniad Hyfforddi.

Sylwch y gall ymgeiswyr dan 18 oed gyflwyno eu hunain ar gyfer asesiad (oni bai y nodir fel arall gan ragofynion y Dyfarniad Arwain). Os bydd darparwyr yn dewis caniatáu hyfforddwr dan 18 oed i fynychu'r cwrs, rhaid gweithredu mesurau diogelu priodol a rhoi ystyriaeth briodol i'r cyfrifoldebau cyfreithiol pellach.

Bydd angen i ymgeiswyr gael cymeradwyaeth gan eu Cymdeithas Gwlad Gartref cyn yr asesiad er mwyn parhau i'r asesiad. Bydd y gwasanaeth 'tawelwch meddwl' rhad am ddim yn cadarnhau eu bod yn bodloni holl ragofynion asesu a bydd yr ymgeisydd yn cael cadarnhad i'w ddangos i'w haseswr.

RHAID i'r ymgeiswyr fynd â'r gwaith papur canlynol i'w hasesiad:

1. Tasg Trafod yr Asesiad Wedi'i Chwblhau
2. Llyfr log o brofiad
3. Tystiolaeth o gymeradwyaeth gan y Gymdeithas Gwlad Gartref ar gyfer asesiad.

NI CHAIFF darparwyr dderbyn ymgeiswyr ar gyrsiau asesu heb y dystiolaeth hon. Byddai'n synhwyrol gofyn am dystiolaeth o gymeradwyaeth gan y Gymdeithas Gwlad Gartref ar gyfer asesiad ar adeg archebu lle er mwyn osgoi problemau.

**Gwaith Papur Diwedd y Cwrs**

Yn syth ar ôl y cwrs asesu, rhaid i'r aseswr ddychwelyd **Amserlen y Cwrs** wedi'i chwblhau a'r **ffioedd** gofynnol i'r Ganolfan Ddarparu. Nodir yr amserlenni lleiaf ar Amserlen y Cwrs.

Ar ôl i'r gwaith papur hwn gael ei ddychwelyd i'r Ganolfan Ddarparu bydd yn cael ei werthuso a bydd y dyfarniad yn cael ei brosesu lle bo hynny'n briodol.

**Lleoliad**

O ran asesiadau, mae angen lleoliad a myfyrwyr addas sy'n caniatáu ar gyfer asesu pob agwedd ar y maes llafur yn gadarn.

Dylai'r amgylchedd hyfforddi fod mor realistig â phosibl, gan sicrhau y gall yr hyfforddwr ddefnyddio amrywiaeth briodol o gyfleusterau ac offer. Yn ddelfrydol, dylid asesu'r hyfforddwyr wrth iddynt hyfforddi'r cyfranogwyr y byddent yn eu hyfforddi fel arfer, yn ei amgylchedd hyfforddi arferol.

Gweler arweiniad ar 'Hyfforddi mewn Amgylchedd Dynamig' ar dudalen 14. Mae hyn berthnasol i'r aseswyr ac i'r hyfforddwyr ar y cwrs.

Mae angen i hyfforddwyr ddewis lleoliadau/safleoedd hyfforddi ar sail anghenon eu cyfranogwyr. Disgwylir i'w stoc o dechnegau hyfforddi gynnwys yr holl amgylcheddau a nodwyd yn y diffiniadau amgylcheddol. Dylai fod gan hyfforddwyr y dewis i hyfforddi o fewn terfynau uwch y diffiniadau amgylcheddol a nodwyd os ydynt yn credu ei fod yn briodol ar gyfer y cyfranogwyr/amodau tywydd ar y diwrnod. Rhaid i'r lleoliadau asesu y dewisir gan drefnwyr y cwrs gynnwys amrywiaeth resymol o ddewisiadau i'r hyfforddwr dewis o'u plith.

Mae angen safle dan do ar gyfer cyflwyno'r cwrs ac er mwyn adrodd yn ôl ar yr asesiad.

**Canslo Cyrsiau**

Rhaid rhybuddio ymgeiswyr y gallai cyrsiau gael eu canslo os nad yw'r amodau'n addas; rhaid cyfathrebu'r polisi canslo cyrsiau yn glir.

Os nad yw'r rhagolygon tywydd yn cynnwys amodau ar derfynau uwch y diffiniadau amgylcheddol am rywfaint o'r amser, rhaid i'r asesiad gael ei ganslo neu ei ail-drefnu. Bydd unrhyw elfennau eraill sy'n atal asesu'r maes llafur yn gadarn hefyd yn arwain at ganslo'r asesiad, neu aildrefnu'r asesiad.

### Tasgau a Gofynion yr Asesiad

Ceir manylion ynghylch y tasgau a'r gofynion yn y Pecyn Diwrnod Asesu Dyfarniad Hyfforddi a'r Canllawiau Asesu.

### Asesiad ar gyfer Hyfforddwyr sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant cyn 2018

Rhaid i hyfforddwyr sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant Ardystiad Dŵr Cymedrol neu Lefel Uwch Corff Dyfarnu Canŵio Prydain Lefel 2 cyn 31 Rhagfyr 2017 gwblhau'r Asesiad Dyfarniad Hyfforddi a phopeth mae'n ei gynnwys os ydynt yn dymuno parhau i'r asesiad. Bydd yr holl ymgeiswyr o 1 Ionawr 2018 yn cwblhau'r Asesiad Dyfarniad Hyfforddi sydd wedi'i ddiwygio a'i ailstrwythuro.

Mae gwybodaeth am y cyrsiau hyfforddi, cofrestriadau, portffolios a llyfrau gwaith y cwblhawyd cyn lansio'r Dyfarniad Hyfforddi ar gael ar gyfer ymgeiswyr, darparwyr ac aseswyr.

### Tasgau Asesu Heb eu Cwblhau

Os nad yw ymgeisydd yn cwblhau elfen sydd ei hangen ar gyfer yr ardystiad erbyn diwedd y cwrs asesu, mae dau ganlyniad posibl:

1. Yn y mwyafrif o achosion, byddai angen i'r ymgeisydd ail-wneud holl elfennau o'r asesiad mewn ailasesiad yn y dyfodol.
2. Fel arall, gall yr ymgeisydd weithio gyda'r un aseswr i ddod â'r Asesiad i ben; gyda'r aseswr yn rhoi cyfleoedd pellach i'r ymgeisydd ddangos cymhwysedd yn yr elfen benodol/elfennau penodol yn ôl yr angen. Os dewisir yr opsiwn hwn, rhaid iddo ddod i ben o fewn dau fis o'r dyddiad asesiad ymarferol cychwynnol. Ni fydd Corff Dyfarnu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn derbyn ardystiad sy'n dod i law 60 diwrnod ar ôl y dyddiad asesu ymarferol

cychwynnol. Bydd ceisiadau am ardystiad ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu gwrthod.

Yn y ddau achos, rhaid dychwelyd Amserlen y Cwrs i'r Ganolfan Ddarparu ar ddiwedd y cwrs asesu cychwynnol, gan nodi'r canlyniad 'ddim yn argymell'. Mae ailasesiadau yn y dyfodol yn amodol ar y niferoedd newydd o Awdurdodaeth ar gyfer y Cwrs.

Nid oes cyfyngiad i nifer y weithiau y gall yr ymgeisydd gael ei asesu; er bod gan diwtoriaid ac aseswyr ddyletswydd i sicrhau bod yr ymgeisydd yn derbyn cyngor cadarn i gefnogi ei ddatblygiad a'i waith paratoi ar gyfer asesiadau llwyddiannus; dylai methu'r asesiadau nifer o weithiau ddigwydd yn anaml iawn yn unig.

## 4. Gofynion Cyfleusterau ac Adnoddau

### Rhagarweiniad

Rhaid dilyn y canllawiau cyffredinol hyn ar  cwrs hyfforddi ac asesu. Gweler manylion penodol hefyd yn adran 1, 2 a 3.

Mae defnyddio cyfleusterau ac adnoddau priodol yn elfen bwysig iawn o hyfforddi ac asesu:

- rhaid darparu amgylchedd gweithredol priodol a diogel ar gyfer holl elfennau o'r hyfforddi ac asesu, gan roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol
- rhaid gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau er mwyn sicrhau arferion diogel ac amgylchedd dysgu a/neu asesu effeithiol
- rhaid i ymgeiswyr wisgo/defnyddio dillad a chyfarpar addas ar gyfer yr holl weithgareddau ymarferol, fel y nodir yn yr Asesiad Risg penodol ac yn unol â'r arferion gorau cyfredol
- rhaid i'r holl weithgareddau fodloni gofynion arferion da a dderbyniwyd, fel yr amlinellwyd yng Nghylch Gorchwyl Corff Dyfarnu Canŵio Prydain ar gyfer Hyfforddi Chwaraeon Padlo
- rhaid gweithredu asesiadau risg a strategaethau rheoli risg priodol drwy gydol yr holl weithgareddau hyfforddi ac asesu

- rhaid i'r adnoddau corfforol fod o safon y diwydiant
- rhaid i'r holl staff fod yn gwbl gyfarwydd â'r arferion gorau a'r safonau presennol sy'n berthnasol i'r Dyfarniad Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain
- mae angen i drefnwyr y cwrs, tiwtoriaid ac aseswyr ystyried yn ofalus addasrwydd y lleoliad sydd wedi'i ddewis er mwyn sicrhau y gellir cynnal hyfforddiant/asesiad cadarn

rhaid gwneud trefniadau priodol a'u cyfathrebu'n glir i'r ymgeiswyr

- rhaid bod gan y lleoliadau amodau o ran pa fan, golau a thymheredd sy'n addas ar gyfer anghenion yr ymgeiswyr
- rhaid i'r lleoliadau a ddefnyddir fod yn hygyrch i'r holl ymgeiswyr (yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol)

**Hyfforddi mewn Amgylchedd Dynamig**

Mae'r canllawiau canlynol wedi esblygu o safbwyntiau a chanfyddiadau Hyfforddwyr Corff Dyfarnu Canŵio Prydain sy'n gweithredu mewn amgylchedd dynamig.

Fframwaith Corff Dyfarnu Canŵio Prydain, a'i agwedd ar ddysgu, yw ein bod yn creu cyfleoedd addas i'r unigolyn ddatblygu. Wrth gefnogi dull hyblyg o gynnal y cyrsiau a heb fod yn gyfyngedig, mae angen i diwtoriaid a hyfforddwyr ystyried dewis amgylchedd mwyaf ffafriol i addysgu'r myfyriwr.

Gyda hyn mewn golwg, wrth hyfforddi i ddatblygu perfformiad a dealltwriaeth, dylai hyfforddwyr a thiwtoriaid ystyried gosod arferion a darparu sesiynau hyfforddi i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth mewn amgylchedd rheoledig, llai dynamig cyn ymrwymo perfformiwr i amgylchedd uwch/mwy cymhleth. Wrth wneud hyn, dylai dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr ddatblygu mewn modd y mae'r dysgwr a'r hyfforddwr yn teimlo'n gyfforddus i symud i amgylcheddau uwch, mwy cymhleth. Yn yr amgylcheddau hyn, bydd gosod arferion priodol a strwythuredig yn caniatáu ar gyfer dysgu pellach, cyn, efallai, dychwelyd i amgylchedd llai ar gyfer hyfforddiant ychwanegol.

Byddai dull o'r fath yn gofyn am y gallu i gynnal proffil dysgu cadarn a dewis lleoliad sy'n caniatáu ar gyfer symud yn hawdd rhwng gwahanol amodau amgylcheddol.

Byddai hyn yn cymryd i ystyriaeth y cyfnod dysgu ac yn caniatáu ar gyfer monitro cysur perfformwyr a meysydd y gellir eu hymestyn, gan ganiatáu hefyd ar gyfer datblygu sgiliau yn ddiogel, yn ogystal â datblygiad seicolegol a chorfforol.

## 5. Polisïau Ategol

Rhaid i diwtoriaid ac aseswyr gael mynediad i, ymgyfarwyddo â, a chefnogi'r broses o roi polisïau ategol perthnasol ar waith, fel y nodir yn y Canllaw Cwrs Dyfarniad Hyfforddi. Gan gynnwys;

Gweithdrefnau Apêl ac Ymholiadau
Gweithdrefnau Cwyno
Y Polisi Cyfleoedd Cyfartal mewn perthynas â Thegwch a Mynediad i Asesiad
Polisi ac Arfer Ystyriaeth Arbennig
Addasiadau Rhesymol ar gyfer Dyfarniadau a Hyfforddiant Chwaraeon Padlo
Camymddygiad

Ym mhob achos, rhaid i aseswyr gyfeirio'r ymgeiswyr aflwyddiannus at Weithdrefn Apelio Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.

## Sicrhau Ansawdd a Gwiriad Mewnol

Mae gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd a Gwiriad Mewnol y Ganolfan Ddarparu yn monitro sgiliau hyfforddi, sut y mae'r rhaglen yn cael ei darparu a'r dull asesu. Fel rhan o ofynion y broses Sicrhau Ansawdd a Gwiriad Mewnol, rhaid i gyfarwyddwyr y cwrs caniatáu mynediad i'r holl safle, cofnodion, gwybodaeth, ymgeiswyr, a staff (yn benodol mewn perthynas â darparu cyrsiau Corff Dyfarnu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain). Efallai y bydd angen mynediad gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd/Gwiriad Mewnol y Ganolfan Ddarparu, neu Werthuswyr Allanol Corff Dyfarnu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.

## 6. Enwau ac Iaith y Cytunwyd arnynt ar gyfer Dyfarniadau Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain

### Rhagarweiniad

Mae'r adran hon yn amlinellu'r derminoleg i'w defnyddio wrth hysbysebu neu hyrwyddo Dyfarniadau Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.

Defnyddir ***Italics*** i nodi'r derminoleg, iaith ac enwau y cytunwyd arnynt i'w defnyddio.

### Enw'r Cymhwyster

*Hyfforddwr Canŵ (Dŵr Cysgodol) Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Caiac (Dŵr Cysgodol) Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Canŵ a Chaiac (Dŵr Cysgodol) Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Dull Rhydd Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Canŵ Dŵr Agored Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Polo Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Rasio Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* (Dŵr Cysgodol)*

*Hyfforddwr Rasio Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* (Dŵr Cymedrol)*

*Hyfforddwr Caiac Môr Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Slalom Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Caiac Beiston Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Paddleboard Stand Up (Dŵr Agored) Corff Dyfarnu Canŵio Prydain **

*Hyfforddwr Paddleboard Stand Up (Dŵr Cysgodol) Corff Dyfarnu Canŵio Prydain **

*Hyfforddwr Paddleboard Stand Up (Dŵr Gwyn) Corff Dyfarnu Canŵio Prydain **

*Hyfforddwr Paddleboard Stand Up (Ras) Corff Dyfarnu Canŵio Prydain **

*Hyfforddwr Canŵ Dŵr Gwyn Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Caiac Dŵr Gwyn Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Rasio Dŵr Gwyllt Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

*Hyfforddwr Canŵ Dŵr Agored Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* (Dŵr Lefel Uwch)*

*Hyfforddwr Caiac Môr Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* (Dŵr Lefel Uwch)*

*Hyfforddwr Caiac Beiston Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* (Dŵr Lefel Uwch)*

*Hyfforddwr Canŵ Dŵr Gwyn Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* (Dŵr Lefel Uwch)*

*Hyfforddwr Caiac Dŵr Gwyn Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* (Dŵr Lefel Uwch)*

*** Defnyddio 'Corff Dyfarnu Canŵio Prydain'**

Dylid cynnwys yr enw *Corff Dyfarnu Canŵio Prydain* cyn enw'r cymhwyster, yn unol â'r canllawiau canlynol:

- cynnwys *'Corff Dyfarnu Canŵio Prydain'* os nad yw'n eistedd o fewn Corff Dyfarnu Canŵio Prydain
- peidio â chynnwys *'Corff Dyfarnu Canŵio Prydain'* os yw'n eistedd dan deitl Corff Dyfarnu Canŵio Prydain
- osgoi defnyddio'r talfyriad 'CP' ; i'w ddefnyddio os nad yw'r naill dewis uchod yn rhoi'r eglurdeb sydd ei angen

Mae'r egwyddor hon yn berthnasol i'r HOLL derminoleg.

**Enw'r Gyfres o Gymwysterau Corff Dyfarnu Canŵio Prydain**

Dylid cyfeirio at y gyfres lawn o ddyfarniadau yn *Gymwysterau Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.* Mae hyn yn cynnwys yr holl *Ddyfarniadau* (neu *Gymwysterau*). Os ydych yn dymuno cynnwys y Dyfarniadau Arwain, dylech ddefnyddio; *Cymwysterau Hyfforddi ac Arwain Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.*

**Enwau Teulu'r Dyfarniadau Hyfforddi**

Mae'r amrywiol cymhwyster gwahanol yn cael eu hadnabod yn gasgliadol fel y *Dyfarniadau Hyfforddi*.

Gellir rhannu'r *Dyfarniadau Hyfforddi* fel y canlynol:

- *Dyfarniadau Hyfforddi Canŵ a Chaiac (Dŵr Cysgodol)*
- *Dyfarniadau Hyfforddi Disgyblaeth Benodol*

Os oes angen rhannu'r Dyfarniadau Hyfforddi Disgyblaeth Benodol ymhellach, dylid gwneud hynny drwy restru enwau'r dyfarniadau (yn ôl y wyddor) e.e. *Dyfarniadau Hyfforddi Caiac Môr, Canŵ a Dull Rhydd Dŵr Agored.*

Dylid osgoi rhannu'r dyfarniadau hyn ymhellach os yn bosibl; fodd bynnag, gellir derbyn yr enghreifftiau canlynol:

*Dyfarniadau Canŵ a Chaiac Dŵr Cysgodol*
*Dyfarniadau Canŵ a Chaiac (Dŵr Cysgodol)*

- *Dyfarniadau Hyfforddi Canŵ Dŵr Agored/Dŵr Gwyn Lefel Uwch, Caiac Môr, Caiac Beiston a Chaiac Dŵr Gwyn*

Nid yw'n briodol defnyddio "Cystadleuol" / "Nid yn gystadleuol" wrth rannu'r Dyfarniadau Hyfforddi, gan fod Beiston a Dull Rhydd yn medru cwympo i'r ddau gategori hyn.

**Ardystiad Tystysgrif Hyfforddiant Prydain Fawr (UKCC)**

Pan fydd yn berthnasol nodi ardystiad y UKCC, defnyddiwch un o'r canlynol, er enghraifft:

*Caiff y Dyfarniadau Hyfforddi eu hardystio ar Lefel 2 gan UKCC.*
*Hyfforddwr Caiac Môr (wedi'i ardystio yn Lefel 2 gan UKCC).*

**Hyfforddiant Hyfforddi Craidd**

- Pan fydd yn amlwg yn eistedd o fewn y Dyfarniad Hyfforddi, defnyddiwch '*Hyfforddiant Hyfforddi Craidd*'
- Pan nad yw'n amlwg yn eistedd o fewn y Dyfarniad Hyfforddi, defnyddiwch '*Hyfforddiant Craidd Dyfarniad Hyfforddi*'

**Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol**

Yr enw teulu, i'w ddefnyddio wrth gyfeirio at yr elfen hyfforddi ar y cyd neu'n gyffredinol:

- Pan fydd yn amlwg yn eistedd o fewn y Dyfarniad Hyfforddi, defnyddiwch '*Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol*'
- Pan nad yw'n amlwg yn eistedd o fewn y Dyfarniad Hyfforddi, defnyddiwch '*Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol Dyfarniad Hyfforddi*'
- Peidiwch â thalfyrru 'HDB' mewn unrhyw destun ar gyfer y cyhoedd.

Mae'r enwau penodol ar gyfer yr Hyfforddiant Disgyblaeth Benodol fel a ganlyn:

Ychwanegwch '*Hyfforddiant*' cyn teitl y dyfarniad: e.e.

- *Hyfforddiant Hyfforddwr Polo*
- *Hyfforddiant Hyfforddwr Caiac Môr (Dŵr Lefel Uwch)*

Caiff yr Hyfforddiant Dŵr Cysgodol ei alw'n:

- *Hyfforddiant Hyfforddwr Canŵ a Chaiac (Dŵr Cysgodol)*
- Gellir byrhau hyn i '*Hyfforddiant Dŵr Cysgodol'* pan fydd yn amlwg yn eistedd o fewn y Dyfarniad Hyfforddi

**Asesiad:**

Yr enw teulu, i'w ddefnyddio wrth gyfeirio at yr elfen hon ar y cyd neu'n gyffredinol:

- Pan fydd yn amlwg yn eistedd o fewn y Dyfarniad Hyfforddi, defnyddiwch '*Asesiad*' neu '*Asesiad Hyfforddwyr*'
- Pan nad yw'n amlwg yn eistedd o fewn y Dyfarniad Hyfforddi, defnyddiwch *'Asesiad Dyfarniad Hyfforddi'*

Mae'r enwau penodol ar gyfer yr asesiadau penodol fel a ganlyn:

Ychwanegwch '*Asesiad*' cyn teitl y dyfarniad: e.e.

- *Asesiad Hyfforddi Canŵ (Dŵr Cysgodol)*
- *Asesiad Hyfforddi Canŵ Dŵr Gwyn*
- *Asesiad Hyfforddi Rasio*
- *Asesiad Hyfforddi Caiac Beiston (Dŵr Lefel Uwch)*

**Defnyddio ‘Corff Dyfarnu Canŵio Prydain’**

Dylid cynnwys ‘*Corff Dyfarnu Canŵio Prydain*’ o flaen enw’r cwrs os nad yw’r cyd-destun yn eistedd o fewn Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.